

Deall anghenion sgiliau yng Nghymru: Ymateb Comisiynydd y Gymraeg

C1: Beth yw'r anghenion sgiliau cyfredol a dyfodol pwysicaf yng Nghymru?

1. Datblygiadau polisi a deddfwriaethol arwyddocaol

Roedd Archwiliad Sgiliau Cymru 2012 yn cydnabod y Gymraeg fel un o dair sgil drawsbynciol allweddol. Ers hynny, mae'r cyd-destun polisi a deddfwriaethol wedi newid yn sylweddol.

Un o'r datblygiadau pwysicaf oedd cyflwyno safonau'r Gymraeg ar gyfer cyrff cyhoeddus. Mae dros 140 o sefydliadau bellach yn gweithredu o dan y gyfundrefn hon, a disgwylir i ragor ddod o fewn ei chwmpas yn ystod tymor presennol y Senedd. Mae'r safonau wedi cynyddu'r galw am unigolion sy'n gallu gweithio'n ddwyieithog ac wedi rhoi mwy o bwyslais ar gynllunio gweithluoedd dwyieithog.

Datblygiad allweddol arall oedd cyhoeddi strategaeth Cymraeg 2050, sy'n gosod y nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu defnydd dyddiol o'r iaith erbyn 2050. Nid yn unig mae'r strategaeth yn pwysleisio pwysigrwydd gweithleoedd o safbwynt darparu gwasanaethau Cymraeg, ond hefyd o ran cynnal a datblygu sgiliau iaith unigolion a chynyddu defnydd ehangach o'r Gymraeg.

Mae'r degawd diwethaf hefyd wedi gweld datblygiadau sylweddol ym maes cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg a dysgu Cymraeg, gan gynnwys ehangu rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sefydlu Medr a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a phasio Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025. Mae'r datblygiadau hyn yn ganolog nid yn unig o safbwynt diwylliannol ac ieithyddol, ond hefyd er mwyn sicrhau bod y system sgiliau yng Nghymru yn diwallu anghenion economaidd y farchnad lafur yn y dyfodol.

I grynhoi, mae'r Gymraeg bellach yn llawer mwy amlwg fel blaenoriaeth polisi cyhoeddus nag yr oedd yn 2012. Mae hyn yn creu goblygiadau pwysig i anghenion sgiliau Cymru ac yn gwneud rôl y system sgiliau yn allweddol i gefnogi'r economi, gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog a gweledigaeth hirdymor y Llywodraeth ar gyfer y Gymraeg.

2. Y Gymraeg fel sgil economaidd ar gyfer byd gwaith

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod galw cynyddol am unigolion sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod y galw hwn yn cynyddu'n gyflymach na'r cyflenwad mewn nifer o sectorau allweddol.¹ Dylid felly ystyried y Gymraeg fel sgil economaidd sy'n berthnasol i ystod eang o sectorau a galwedigaethau. Credwn ei bod yn hanfodol ystyried y Gymraeg fel sgil traws-sectorol sy'n rhan annatod o ddiwallu anghenion sgiliau mewn ystod eang o feysydd a sectorau gwahanol.

¹ Gweler er enghraifft rhai o ganfyddiadau [adroddiadau perfformiad y Comisiynydd](#), a hefyd [adroddiad 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg](#).

Yn ein hymateb i gwestiwn 2 isod rydym yn amlinellu'r meysydd a sectorau sydd angen eu blaenoriaethu o ran datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu.

C2: Ble ydych chi'n gweld y bylchau neu ddiffyg cyfatebiaeth rhwng cyflenwad sgiliau a galw?

Fel rydym wedi ei nodi, dylai'r archwiliad ystyried sgiliau Cymraeg a dwyieithog fel elfen ganolog o anghenion sgiliau Cymru yn awr ac yn y dyfodol. Er hynny, mae rhai meysydd yn arbennig o bwysig o safbwynt yr angen am sgiliau Cymraeg a dwyieithog. Mae'r rhain yn cynnwys y sector gofal plant a blynyddoedd cynnar, y sector addysg, y sector iechyd a gofal cymdeithasol, meysydd fel chwaraeon, diwydiannau creadigol a'r cyfryngau, a gwasanaethau cyhoeddus.

1. Blynyddoedd cynnar a gofal plant

Mae strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd y sector gofal plant a blynyddoedd cynnar wrth hwyluso mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus. Bydd datblygu capasiti cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y gweithlu yn allweddol i ehangu'r ddarpariaeth, yn enwedig yng nghyd-destun ymrwymiad y Llywodraeth i ymestyn gofal plant am ddim a chefnogi gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Fel yn y sector addysg yn ehangach, diffyg gweithlu dwyieithog yw'r prif rwstr i gyflawni'r amcanion hyn. Mae gwaith mapio'r gweithlu gofal plant a chwarae, a gyhoeddwyd yn 2024 gan Lywodraeth Cymru, yn dangos y bydd angen ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn sylweddol i fodloni targedau twf addysg cyfrwng Cymraeg awdurdodau lleol.² Fodd bynnag, mae anawsterau recriwtio a chadw staff Cymraeg eu hiaith, ynghyd â lefelau cyflog isel a throsiant uchel, yn heriau mawr i'r sector.

Mae sylfaen gadarn eisoes yn bodoli o safbwynt ehangu sgiliau Cymraeg y gweithlu yn y sectorau hyn, gan gynnwys rhaglen brentisiaethau cyfrwng Cymraeg, cynllun hyfforddi Cam wrth Gam a Chynllun dysgu Cymraeg Camau. Serch hynny, fel y nodwyd yn ein [hadroddiad 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg](#), mae angen buddsoddiad pellach i uwchsgilio'r gweithlu a chaniatáu ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

2. Y sector addysg a hyfforddiant

Bydd cyflawni gweledigaeth y Llywodraeth i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn dibynnu i raddau helaeth ar sicrhau bod mwy o unigolion yn gadael y gyfundrefn addysg a hyfforddiant yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Ni fydd modd cyflawni hyn oni bai bod cynnydd sylweddol yn nifer yr athrawon, darlithwyr a gweithwyr addysg proffesiynol sy'n gallu gweithio ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Er mai ehangu'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg yw un o'r materion mwyaf allweddol i lwyddiant gweledigaeth Cymraeg 2050, mae'r dystiolaeth ar hyn o

² [Mapio'r gweithlu gofal plant a chwarae yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)

bryd yn amlygu bod bwloch sylweddol o safbwynt sgiliau Cymraeg ym mhob rhan o'r sector addysg a hyfforddiant.

2.1 Y sector statudol

Mae prinder gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg yn arbennig o amlwg yn y sector addysg statudol. Nid yw'r gweithlu addysg presennol â'r capasiti i ddarparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar y raddfa fydd ei hangen er mwyn cyflawni amcanion Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

Mae strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn cynnwys targedau penodol o ran niferoedd yr athrawon y bydd eu hangen ar gyfer cyflawni targedau twf addysg cyfrwng Cymraeg. Fel dengys y tabl isod, mae'r niferoedd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector cynradd wedi aros yn weddol gyson dros y degawd diwethaf. Yn ystod yr un cyfnod mae'r niferoedd sy'n addysgu yn y sector uwchradd wedi cynyddu'n raddol. Er hyn, mae'r niferoedd yn sylweddol is na'r targedau sydd wedi'u gosod.

Tabl 1: Niferoedd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Ffynhonnell: Data'r Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion


	Gwaelodlin 2015/16	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	Targedau		
						2021	2031	2050
Cynradd	2,875	2,871	2,884	2,874	2,792	3,100	3,900	5,200
Uwchradd	2,292	2,395	2,499	2,555	2,549	2,800	4,100	5,400

Yn ôl dadansoddiad Llywodraeth Cymru, mae angen tua 225 o athrawon uwchradd ychwanegol bob blwyddyn i'r rhai sy'n dod drwy Addysg Gychwynnol Athrawon a dulliau recriwtio eraill ar hyn o bryd.³ Ar gyfer y sector cynradd mae angen 153 o athrawon ychwanegol bob blwyddyn.

Dylid nodi hefyd mai dim ond un rhan o'r her yw sicrhau digon o athrawon ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg. Bydd cyflawni targedau Cymraeg 2050 a gweledigaeth Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn gofyn am gynyddu'n sylweddol nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu'n ddwyieithog ym mhob ysgol. Er hyn mae'r Cyfrifiad Blyneddol o'r Gweithlu Ysgolion yn dangos nad yw proffil sgiliau iaith Gymraeg athrawon yng Nghymru wedi newid llawer ers 2019/20.

³ [Llywodraeth Cymru, Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg: dadansoddiad data, Diweddariad2024.](#)

Siart 1: Gallu athrawon yn y Gymraeg. Ffynhonnell: Cyfrifiad Blynnyddol o'r Gweithlu Ysgolion)



Mae'r dystiolaeth yn awgrymu felly nad yw'r niferoedd presennol o athrawon cyfrwng Cymraeg yn ddigonol i ddiwallu'r galw presennol nac i wireddu'r twf fydd ei angen er mwyn cyflawni amcanion polisi a deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Mae ceisio recriwtio ac annog mwy o siaradwyr Cymraeg i'r proffesiwn addysgu yn un rhan o'r ateb, ond er mwyn cyflawni amcanion Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 bydd rhaid canolbwyntio ar ddwysau'r strategaethau ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg gweithlu addysg y dyfodol yn ei gyfanrwydd. Heb ymyrraeth sylweddol, y tebygolrwydd yw y gwelwn ni gylch diddiwedd lle bydd prinder athrawon cyfrwng Cymraeg yn rhwystr parhaus i sicrhau cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n gadael yr ysgol ym medru siarad Cymraeg. Bydd hyn yn rhwystr rhag datblygu'r gweithluoedd dwyieithog sydd eu hangen ar draws gwahanol sectorau a galwedigaethau yng Nghymru.

2.2 Y sector addysg drydyddol

Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu heriau sylweddol o ran capasiti'r gweithlu addysg statudol i alluogi cynnal a datblygu sgiliau Cymraeg ar hyd y continwwm addysg drydyddol a dysgu seiliedig ar waith.


Mae canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn dangos bod gostyngiad sylweddol yng nghanran yr unigolion sy'n nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg ar ôl iddynt adael oedran addysg statudol. Mae'r duedd hon yn awgrymu bod sgiliau Cymraeg cyfran sylweddol o'r boblogaeth yn dirywio neu'n cael eu defnyddio'n llai aml ar ôl gadael y ysgol. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd darparu cyfleoedd parhaus i ddysgu,

defnyddio a datblygu'r Gymraeg drwy addysg a hyfforddiant trydyddol. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau cyflenwad hirdymor o weithwyr dwyieithog mewn sectorau lle mae'r galw am sgiliau Cymraeg yn cynyddu, ac i ehangu cyfleoedd gwaith i ddysgwyr.

Er bod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi cyfrannu at gynnydd sylweddol mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sectorau addysg bellach ac uwch, mae'r cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog wedi bod yn gymharol gyfyngedig.


Siart 2: Gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn addysg bellach, yn ôl cyfrwng iaith y ddarpariaeth, ac eithrio dysgu seiliedig ar waith.

Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru



Fel y gwelir yn y siart uchod, cymharol gyfyngedig yw'r cynnydd mewn perthynas â'r gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg, dwyieithog, a chyfran sylweddol o ddysgu cyfrwng Cymraeg. I raddau helaeth mae'r un peth yn wir mewn perthynas â'r sector addysg uwch:

Siart 3: Nifer y myfyrwyr sy'n astudio yn y Gymraeg mewn prifysgolion yng Nghymru, yn ôl nifer y credydau. Ffynhonnell: Cofnodion Myfyrwyr a Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch



Er bod nifer o wahanol heriau o safbwynt ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector addysg bellach ac uwch, does dim dwywaith mai un rhan bwysig o'r her yw cynyddu capasiti presennol y staff sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y capasiti presennol yn annigonol i ateb y galw, heb sôn am y capasiti ychwanegol fydd ei angen er mwyn cyflawni amcanion polisi'r Llywodraeth o safbwynt twf darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector drydyddol.

3. Iechyd a gofal cymdeithasol

Mae iechyd a gofal cymdeithasol yn un o'r sectorau sydd â'r angen mwyaf am weithwyr medrus sydd â sgiliau Cymraeg. Mae gallu defnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau iechyd a gofal yn hollbwysig, yn arbennig gan y bydd unigolion yn aml mewn sefyllfa o wendid wrth dderbyn y gwasanaethau hynny.

Yn anffodus nid yw'r ddarpariaeth iechyd a gofal yng Nghymru ar hyn o bryd yn bodloni anghenion gwlad ddwyieithog. Er enghraifft, mae ein harolwg diweddar ar 'gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg' wedi canfod bod 88% o siaradwyr Cymraeg yn ystyried ei bod yn bwysig gallu derbyn gwasanaethau iechyd a gofal drwy gyfrwng y

Gymraeg.⁴ Er hyn dim ond 56% oedd yn hyderus y gallant gael gwasanaeth yn Gymraeg pan fo angen. Yn yr un modd, mae'r un arolwg yn dangos mai dim ond 35% o siaradwyr Cymraeg oedd yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg drwy'r amser, neu gan amlaf, wrth dderbyn gwasanaethau iechyd a gofal. Er hynny, roedd 55% yn nodi y byddai well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau iechyd a gofal. Mae hyn yn dangos bylchau amlwg rhwng anghenion a dymuniadau defnyddwyr gwasanaethau a chapasiti'r sector i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg o fewn y maes hollbwysig hwn.

Mae gwella profiadau siaradwyr Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal yn dibynnu'n helaeth ar gynyddu capasiti'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn hanfodol er mwyn galluogi byrddau iechyd i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg, yn enwedig safon 110, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gynllunio ar gyfer cynyddu eu capasiti i gynnal ymgynghoriadau clinigol Cymraeg. Dengys cynlluniau'r byrddau iechyd, ynghyd â thystiolaeth gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ac Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2024⁵, fod prinder gweithwyr â sgiliau Cymraeg yn rhwystr sylweddol i ehangu darpariaeth glinigol Gymraeg, mewn cyd-destun lle mae'r galw am y sgiliau hyn yn parhau i gynyddu.

Mae cynlluniau pum mlynedd y byrddau iechyd a strategaeth *Mwy na Geiriau* yn nodi nifer o feysydd blaenoriaeth, gan gynnwys gwasanaethau i blant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu, defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, pobl sy'n byw â dementia, defnyddwyr gwasanaethau strôc, a gwasanaethau therapi iaith a lleferydd. Bydd datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu yn y meysydd hyn, yn ogystal â gofal sylfaenol, yn allweddol.

Mae gwaith sylweddol eisoes yn digwydd i gryfhau capasiti'r gweithlu, gan gynnwys gweithredu safon 110, *Mwy na Geiriau*, rhaglenni hyfforddi'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a datblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes iechyd a gofal gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Er hynny, bydd angen ffocws cynyddol ar gynllunio strategol y gweithlu, gan gynnwys gwell dealltwriaeth o'r capasiti presennol, anghenion sgiliau Cymraeg ar draws gwahanol feysydd clinigol ac ardaloedd, a'r camau sydd eu hangen i ddiwallu'r galw yn effeithiol. Fel rhan o hyn credwn bod angen ffocws penodol ar recriwtio, gan sicrhau cynnydd yn nifer y swyddi lle mae'r Gymraeg yn sgil hanfodol. Byd dy gwaith o gyflwyno'r Cod Cenedlaethol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg yn hwyluso'r broses hwn (gweler ein hymateb i gwestiwn 4 yr ymgynghoriad am fwy o fanylder am hyn).

4. Chwaraeon, y diwydiannau creadigol a'r cyfryngau

Mae ein [hadroddiad 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg](#) yn pwysleisio'r angen i gynnig llawer mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, cymunedol a chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhan allweddol o'r her o ehangu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y meysydd hyn fydd sicrhau gweithlu sy'n gallu cynnig darpariaeth a phrofiadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel mae'n hadroddiad 5 mlynedd yn nodi, ar

⁴ Gellir gweld rhai o ganlyniadau'r arolwg hwn yn ein [hadroddiad 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg](#)

⁵ [Arolwg Sgiliau Cyflogwyr: 2024](#). Llywodraeth Cymru

hyn o bryd mae bylchau o ran sgiliau Cymraeg o fewn y sectorau hyn, sydd yn cael effaith ar gyfleoedd unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.

5. Gwasanaethau cyhoeddus

Mae gofynion safonau'r Gymraeg wedi cynyddu'r galw am unigolion sy'n gallu gweithio yn ddwyieithog ar draws y sector gyhoeddus. O ganlyniad, mae sgiliau Cymraeg yn gynyddol bwysig ar draws ystod eang o swyddi yn y sector gyhoeddus. Mae prinder gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg yn debygol o effeithio'n uniongyrchol ar allu sefydliadau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog o safon gyson.

Mae tystiolaeth Comisiynydd y Gymraeg⁶ yn dangos bod galw sylweddol am wasanaethau Cymraeg ar draws y sector cyhoeddus. Mae arolygon yn dangos bod 93% o siaradwyr Cymraeg yn ystyried gwasanaethau Cymraeg gan gyrrff cyhoeddus yn bwysig, ond dim ond 75% sy'n hyderus y gallant dderbyn gwasanaeth yn Gymraeg. Mae'r Comisiynydd hefyd wedi nodi bod profiad defnyddwyr yn amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol wasanaethau a sectorau. Mae hyn yn awgrymu nad yw gallu ieithyddol y gweithlu bob amser yn cyfateb i anghenion defnyddwyr gwasanaethau na disgwyliadau polisi.

Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu bod y problemau hyn yn debygol o gynyddu dros amser. Mae Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2024 yn dangos bod 20% o gyflogwyr yn credu y byddent yn elwa o gynnig cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ehangach, gyda'r galw ar ei uchaf mewn sectorau megis addysg ac iechyd a gwaith cymdeithasol.⁷ Mae hyn yn awgrymu bod y galw am sgiliau Cymraeg yn debygol o gynyddu ymhellach ac y gallai bylchau presennol yn y gweithlu gael effaith gynyddol ar allu gwasanaethau cyhoeddus i ymateb i anghenion defnyddwyr.

Heb gynyddu cyflenwad gweithwyr sy'n gallu gweithio yn Gymraeg, bydd sefydliadau'n wynebu anawsterau cynyddol wrth gyflawni eu dyletswyddau statudol, darparu gwasanaethau Cymraeg o safon a diwallu anghenion dinasyddion, yn enwedig mewn sectorau fel addysg, iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau lleol.

Mae'r Comisiynydd yn gyson wedi galw am well dealltwriaeth o sgiliau Cymraeg y gweithlu er mwyn cefnogi cynllunio strategol. Un o ddeilliannau rheoleiddio'r Comisiynydd yw "sefydliadau'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithle, gan alluogi staff i weithio yn Gymraeg o ddydd i ddydd." Mae'r gweithle yn flaenoriaeth strategol i'r Comisiynydd a bydd ffocws mwy cyson a thrylwyr ar sgiliau a defnydd o'r Gymraeg yn symud sefydliadau ar hyd y continwrm iaith, gan greu mwy o gyfleoedd a mwy o angen am sgiliau ymysg y gweithlu.

C3: Pa effaith mae bylchau, prinder neu ddiffyg cyfatebiaeth cyfredol neu'r dyfodol yn ei gael, neu'n debygol o'i gael yn y dyfodol?

⁶ Gellir gweld rhai o ganlyniadau'r arolwg hwn yn ein [hadroddiad 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg](#)

⁷ [Arolwg Sgiliau Cyflogwyr: 2024](#). Llywodraeth Cymru

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod bylchau a phrinder sgiliau Cymraeg eisoes yn cael effaith ar recriwtio, darparu gwasanaethau a datblygu'r gweithlu mewn nifer o sectorau strategol.

Mae'r effeithiau hyn i'w gweld nid yn unig o ran anawsterau recriwtio a chapasiti'r gweithlu, ond hefyd o ran gallu sefydliadau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o safon gyson ac i gyflawni amcanion strategol a statudol. Heb weithredu pellach, mae'n debygol y bydd yr effeithiau hyn yn cynyddu dros amser wrth i'r galw am weithwyr dwyieithog gynyddu.

Felly, mae'r effeithiau'n ymestyn y tu hwnt i faterion recriwtio yn unig. Gallant effeithio ar ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau, cyfleoedd economaidd a datblygu cymunedau, gallu sefydliadau i weithredu'n ddwyieithog, a llwyddiant ymdrechion ehangach i gyflawni gweledigaeth Cymru o fod yn genedl wirioneddol ddwyieithog.

1. Recriwtio a chadw

Mae diffyg cyfatebiaeth rhwng cyflenwad a galw am sgiliau Cymraeg yn gallu arwain at anawsterau recriwtio mewn sectorau lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol neu'n gynyddol bwysig. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y sector addysg, lle mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r angen am gannoedd o athrawon cyfrwng Cymraeg ychwanegol bob blwyddyn.

2. Darparu gwasanaethau a phrofiad defnyddwyr

Mae prinder gweithwyr dwyieithog yn effeithio ar allu sefydliadau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn gyson. Mae data monitro'r Comisiynydd yn dangos mai gwasanaethau ffôn a gwasanaethau rheng flaen yw rhai o'r meysydd mwyaf heriol o hyd. Er bod perfformiad sefydliadau yn gwella'n gyffredinol, dim ond 63% o sefydliadau a arolygwyd oedd yn gallu delio â galwadau ffôn yn Gymraeg yn 2024/25.

3. Twf addysg cyfrwng Cymraeg a chyflenwad sgiliau'r dyfodol

Mae prinder gweithlu addysg ddwyieithog yn risg uniongyrchol i allu'r system addysg i gynhyrchu gweithlu dwyieithog y dyfodol. Nid yw'r gweithlu addysg presennol yng Nghymru â'r capasiti i ddarparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar y raddfa fydd ei hangen er mwyn cyflawni amcanion Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025. Nid ydym o'r farn fod strategaeth ddigon uchelgeisiol yn bodoli ar hyn o bryd ar gyfer cau'r bwlch hwn.

Nid yn unig mae risg bydd y prinder hwn yn tanseilio cyflawni targedau Cymraeg 2050 o ran cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg, ond bydd hefyd yn cyfyngu ar allu'r system addysg i gynhyrchu'r gweithlu dwyieithog fydd ei angen yn y dyfodol.

4. Llesiant economaidd a chymdeithasol

Mae sgiliau Cymraeg yn cyfrannu nid yn unig at ddarparu gwasanaethau ond hefyd at lesiant economaidd a chymdeithasol Cymru. Mae sectorau megis addysg, iechyd,

gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar yn dibynnu'n gynyddol ar weithwyr sydd â sgiliau Cymraeg. Gall methiant i ddatblygu'r gweithluoedd hyn effeithio ar ansawdd gwasanaethau, cyfyngu ar gyfleoedd cyflogaeth ac amharu ar ymdrechion i gynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau a gweithleoedd.

Mae Adroddiad 5 Mlynedd y Comisiynydd yn pwysleisio bod y gweithle yn un o'r cyfleoedd mwyaf cyson a naturiol i gynyddu defnydd dyddiol o'r Gymraeg ac i gynnal sgiliau'r bobl sydd wedi dysgu'r iaith drwy'r system addysg. Gall prinder gweithwyr dwyieithog felly leihau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a gwanhau'r cysylltiad rhwng addysg, gwaith a defnydd cymdeithasol o'r iaith.

5. Cyflawni gofynion statudol a nodau cenedlaethol

Mae'r bylchau rhwng cyflenwad a galw am sgiliau Cymraeg yn peri risg i gyflawni amcanion strategol a statudol Cymru. Mae llwyddiant Cymraeg 2050, gweithrediad Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, gweithrediad safonau'r Gymraeg a chynlluniau megis *Mwy na Geiriau* yn dibynnu ar argaeledd gweithluoedd sydd â sgiliau Cymraeg addas. Heb gynnydd sylweddol yn nifer y gweithwyr sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith, mae perygl na fydd modd cyflawni'r amcanion hyn ar y raddfa a'r cyflymder sydd eu hangen.

C4: Beth ydych chi'n eu gweld fel y tueddiadau a'r sbardunau allweddol yn y farchnad lafur sy'n effeithio ar anghenion sgiliau yng Nghymru?

Cyfeiriad polisi a deddfwriaethol yw'r prif ffactor sy'n debygol o ddylanwadu ar anghenion sgiliau yng Nghymru, wrth i fwy o bwyslais gael ei roi ar ddatblygu a defnyddio'r Gymraeg. Mae Cymraeg 2050, Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, safonau'r Gymraeg a pholisïau fel *Mwy na Geiriau* yn creu disgwyliad cynyddol y bydd mwy o unigolion yn defnyddio'r Gymraeg mewn addysg, gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithle.

Yn y tymor byr, bydd angen ffocws penodol ar recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg mewn sectorau blaenoriaeth, datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol, a chynyddu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, yn enwedig mewn sectorau blaenoriaeth.

Yn y tymor canolig a'r tymor hir, y ffactor allweddol fydd gallu'r system addysg a'r sector addysg drydyddol i gynyddu nifer yr unigolion sy'n gadael addysg â sgiliau Cymraeg defnyddiol ar gyfer y byd gwaith. Bydd hyn yn hanfodol i sicrhau cyflenwad cynaliadwy o weithwyr dwyieithog ar draws economi Cymru.

Bydd tueddiadau demograffig, yn enwedig poblogaeth sy'n heneiddio a'r galw cynyddol am weithwyr ieuchyd a gofal cymdeithasol, hefyd yn dylanwadu ar anghenion sgiliau. Ar yr un pryd, mae'r gweithle yn debygol o chwarae rhan gynyddol bwysig wrth gynnal a datblygu sgiliau Cymraeg, gyda mwy o bwyslais ar gynllunio gweithluoedd dwyieithog a chreu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn y gwaith.

Yn gryno, mae'r galw am sgiliau Cymraeg fel sgil economaidd a galwedigaethol yn debygol o gynyddu dros y degawdau nesaf. Bydd hyn yn gofyn am gysylltiad cryfach

rhwng addysg, hyfforddiant, cynllunio gweithlu a datblygu sgiliau er mwyn sicrhau bod cyflenwad gweithwyr dwyieithog yn gallu diwallu'r galw cynyddol.

C5: Beth yw'r blaenoriaethau, cyfleoedd neu heriau allweddol yn eich sector neu faes polisi yr hoffech i ganfyddiadau'r ymchwil hwn eu hysbysu?

Fel rydym eisoes wedi'i nodi, mae datblygu sgiliau Cymraeg a dwyieithog fel elfen ganolog o anghenion sgiliau Cymru yn flaenoriaeth ar gyfer y cyfnod nesaf. Mae ein hymateb i ail gwestiwn yr ymgynghoriad yn amlinellu'r prif feysydd a sectorau sydd angen eu blaenoriaethu yn y cyd-destun hwn, ac yn amlygu rhai o'r prif heriau a chyfleoedd sy'n bodoli.

Y tu hwnt i'r blaenoriaethau canolog uchod, credwn bod angen i'r archwiliad sgiliau ystyried materion yn ymwneud â chynllunio yn rhanbarthol, a hefyd gwella'r data sy'n bodoli am anghenion sgiliau Cymraeg gan gyflogwyr, a defnydd o'r sgiliau hynny o fewn gweithleoedd.

1. Cynllunio yn rhanbarthol

Dylai'r gwaith o gynllunio sgiliau adlewyrchu marchnadoedd llafur lleol, patrymau demograffig, blaenoriaethau datblygu economaidd a phroffiliau ieithyddol cymunedau. Nid yw anghenion sgiliau, gan gynnwys sgiliau Cymraeg, yn gyson ledled Cymru ac felly mae angen deall a chydabod y gwahaniaethau hyn er mwyn cynllunio'n effeithiol.

Mae tystiolaeth y Comisiwn Cymunedau Cymraeg⁸ yn awgrymu cysylltiad pwysig rhwng datblygu economaidd, cynllunio'r gweithlu a chynaliadwyedd y Gymraeg fel iaith gymunedol. Dylai Archwiliad Sgiliau Cymru felly edrych nid yn unig ar y galw am sgiliau Cymraeg mewn sectorau penodol, ond hefyd ar sut mae datblygiadau economaidd rhanbarthol yn effeithio ar gymunedau a'r gweithlu lleol, yn enwedig mewn llefydd sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.

Mewn ardaloedd megis Gwynedd, Ynys Môn neu Geredigion, ble mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg, mae prosiectau economaidd mawr yn debygol o greu galw newydd am sgiliau mewn sectorau penodol. Dylai cynllunio sgiliau sicrhau bod llwybrau addysg, hyfforddiant a phrentisiaethau lleol yn galluogi pobl leol i fanteisio ar y cyfleoedd hynny, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Gall hyn annog pobl ifanc i aros yn eu cymunedau gan gryfhau'r economi leol a chefnogi'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun polisiau a rhaglenni megis ARFOR, yn ogystal â gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Medr yn datblygu llwybrau addysg a chyflogaeth sy'n diwallu anghenion rhanbarthol a lleol.

2. Yr angen am well dealltwriaeth o alw cyflogwyr a defnydd o sgiliau Cymraeg

Er mwyn cynllunio system sgiliau effeithiol, mae angen gwell dealltwriaeth o'r galw am sgiliau Cymraeg ar draws sectorau a rhanbarthau Cymru. Er bod tystiolaeth yn awgrymu bod galw cynyddol am weithwyr dwyieithog mewn nifer o feysydd, nid oes

⁸ [Adroddiadau y Comisiwn Cymunedau Cymraeg](#)

dealltwriaeth gadarn na chyson ynghylch ble mae'r galw mwyaf, pa lefel o sgiliau sydd eu hangen, na lle mae'r bylchau mwyaf rhwng cyflenwad a galw. Un o'r heriau allweddol yw diffyg gwybodaeth systematig am sgiliau Cymraeg y gweithlu a defnydd o'r sgiliau hynny yn y gweithle.

Yn ogystal ag ystyried y galw am sgiliau Cymraeg o fewn gwahanol sectorau, dylai'r Archwiliad ystyried pa fath o sgiliau Cymraeg sydd eu hangen yn ogystal. Nid yw proffil neu gallu iaith unigolyn o reidrwydd yn gyson; mae rhai sgiliau yn gryfach na'i gilydd. Er enghraifft, gall rhai fod yn hyderus wrth siarad yn Gymraeg, ond nid wrth ysgrifennu. Yn yr un modd, nid yw gofynion cyflogeion am sgiliau am fod yr un fath ac gyfer pob swydd ac ym mhob sector. Gall hyn fod yn bwysig, yn arbennig mewn cyd-destun byd gwaith.

Bydd y gwaith o ddatblygu Cod i Ddisgrifio Gallu yn y Gymraeg, a ddatblygir ar sail y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd (CEFR) yn sgil Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, yn cynnig cyfle pwysig i sefydlu dull cenedlaethol cyson o fesur, olrhain a chynllunio sgiliau Cymraeg ar draws addysg, hyfforddiant a gweithleoedd. Er enghraifft, bydd hyn yn galluogi gwell dealltwriaeth o nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg mewn gwahanol sectorau a rhanbarthau; lefel a natur y sgiliau Cymraeg sydd gan weithwyr ac unigolion sy'n ymgeisio am swyddi; dealltwriaeth fwy soffistigedig o ofynion ieithyddol gwahanol swyddi; a gwell dealltwriaeth o'r bylchau rhwng gallu ieithyddol y gweithlu a gofynion cyflogwyr. Byddai hyn yn darparu sail dystiolaeth fwy cadarn ar gyfer cynllunio'r gweithlu a monitro cynnydd tuag at gyflawni amcanion Cymraeg 2050 a Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

Ar hyn o bryd mae'r Comisiynydd yn datblygu holiadur fydd yn ddull safonol, cenedlaethol ar gyfer mesur defnydd staff o'r Gymraeg. Bydd hyn yn galluogi sefydliadau i gael gwell dealltwriaeth o ddefnydd presennol staff o'r Gymraeg, pa gyfleoedd sy'n bodoli iddynt, pa heriau sy'n eu hatal, a pha gefnogaeth bellach gall y sefydliad ei ddarparu. Gyda'i gilydd, bydd y Cod a'r holiadur mesur defnydd yn creu darlun mwy cyflawn o allu a defnydd o'r Gymraeg. Bydd hyn yn ei dro yn caniatáu i sefydliadau gynllunio'r gweithlu yn fwy effeithiol a strategol er mwyn targedu bylchau a diffygion o ran darpariaeth a gwasanaeth.